Prifysgol Wrecsam
Wrexham University

# Datganiad Prif Gyfrifoldebau

*Mae prif gyfrifoldebau Bwrdd Llywodraethwyr Prifysgol Wrecsam wedi'u rhestru yn ei Ddatganiad Prif Gyfrifoldebau. Mae'r cyfrifoldebau hyn yn gyson ag Offeryn ac Erthyglau Llywodraethu Prifysgol Wrecsam.*

1. Pennu a chytuno ar weledigaeth, cyfeiriad strategol a gwerthoedd y sefydliad, gan ystyried argymhellion y Tîm Gweithredol.

2. Cytuno ar y cynlluniau busnes ac academaidd tymor hir a dangosyddion perfformiad allweddol a sicrhau fod y rhain yn bodloni buddiannau rhanddeiliad, yn enwedig staff, myfyrwyr a chyn-fyfyrwyr.

3. Sicrhau fod prosesau'n bodoli i fonitro a gwerthuso perfformiad ac effeithiolrwydd y sefydliad yn erbyn y strategaeth, cynlluniau a dangosyddion perfformiad allweddol a gymeradwywyd a ddylai, lle bo'n bosibl ac yn briodol, gael eu meincnodi yn erbyn sefydliadau eraill a sefydliadau cymharol.

4. Dirprwyo awdurdod i'r Is-Ganghellor o ran rheolaeth academaidd, corfforaethol, ariannol, ystadau ac adnoddu dynol y sefydliad, a sefydlu ac adolygu'n rheolaidd y polisiau, gweithdrefnau a therfynau y cyflawnir swyddoga ethau rheolaeth o'r fath gan a dan awdurdod yr Is-Ganghellor.

5. Sicrhau sefydlu a monitro systemau rheoli ac atebolrwydd, yn cynnwys rheolaethau ariannol a gweithredol, asesu risg, trefniadau gwerth am arian a gweithdrefnau trin cwynion cyflogaeth mewnol a rheoli gwthdaro buddiannau.

6. Sefydlu prosesau i fonitro a gwerthuso perfformiad ac effeithiolrwydd y corff llywodraethu ei hun.

7. Cynnal busnes yn unol ag arfer orau mewn llywodraethu corfforaethol Addysg Uwch ac egwyddorion bywyd cyhoeddus a luniwyd gan y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus.

8. Diogelu enw da a gwerthoedd y sefydliad.

9. Penodi'r IsGanghellor fel Prif Weithredwr a sefydlu trefniadau addas ar gyfer monitro ei berfformiad.

10. Penodi Ysgrifennydd y corff llywodraethu a sicrhau, os oes gan yr unigolyn a benodwyd gyfrifoldebau rheoli yn y sefydliad, fod gwahanu priodol yn y llinellau atebolrwydd.

11. Bod yr awdurdod cyflogi i holl staff y sefydliad a bod yn atebol am sicrhau y sefydlir strategaeth adnoddau dynol briodol.

12. Bod y prif awdurdod ariannol a busnes y sefydliad i sicrhau y cedwir cyfrifon a datganiadau arian nol cywir, a meddu ar atebolrwydd cyffredinol am asedau, eiddo ac ystad y sefydliad.

13. Bod yn awdurdod cyfreithiol y sefydliad ac, yn rhinwedd hynny, sicrhau fod systemau'n bodoli ar gyfer bodloni ymrwymiadau cyfreithiol y sefydliad, yn cynnwys y rhai hynny'n deillio o gontractau ac ymrwymiadau cyfreithiol eraill a wnaed yn enw'r sefydliad.Mae hyn yn cyn

nwys atebolrwydd am iechyd, diogelwch a diogeledd ac am gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

14. Derbyn sicrwydd y gwnaed darpariaeth ddigonol ar gyfer lles cyffredinol y myfyrwyr.

15. Gweithredu fel ymddiriedolwr ar gyfer unrhyw eiddo, cymynrodd, gwaddol, etifeddiaeth neu rodd i gefnogi gwaith a lles y sefydliad.

16. Sicrhau y dilynir cyfansoddiad y sefydliad bob amser, a bod cyngor priodol ar gael i ialluogi hyn.

17. Hyrwyddo diwylliant sy’n cefnogi cynhwysiant ac amrywiaeth ar draws y sefydliad.

18. Cynnal a diogelu egwyddorion rhyddid academaidd a deddfwriaeth rhyddid i lefaru.

19. Sicrhau fod yr holl staff a myfyrwyr yn cael cyfleoedd i ymgysylltu gyda llywodraethu a rheoli’r sefydliad.

20. Sicrhau fod trefniadau’n bodoli ar gyfer llywodraethu academaidd effeithiol ac ansawdd a safonau rhaglenni addysgol.

21. Bod yn gyfrifol am benodi, aseinio, graddion, atal, diswyddo a phenderfynu ar gyflog ac amodau’r Is-Ganghellor, Clerc y Bwrdd Llywodraethwyr a deilaid uwch swyddi a benderfynir gan y Bwrdd yn dilyn y mgynhori,lle bo’n briodol, gyda’r Is-Ganghellor.

22. Cymryd camau sy’n rhesymol ymarferol i sicrhau fod yr Undeb Myfyrwyr yn gweithredu mewn modd teg a democrataidd a’i bod yn atebol am ei chyllid.

**Unigolion allweddol Medi 2024**

| | |
|---|---|
| Cadeirydd y Bwrdd | Dr Leigh Griffin |
| Is-Gadeirydd | Paul Barlow |
| Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Datblygu Strategol | Jayne Owen |
| Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio | Paul Barlow |
| Cadeirydd y Pwyllgor Adnoddau Dynol | Diane McCarthy |
| Cadeirydd y Pwyllgor Enwebiadau | Claire Homard |
| Cadeirydd y Pwyllgor Cyflogi | Diane McCarthy |